

# Gosod eich Cwrs Ar-lein

Suzy Shipman a Joseph Smith

## Cynnwys

Rhagymadrodd .....	3
1. Cymeradwyo'r Cynllun .....	3
2. UCAS (cyrsiau i israddedigion yn unig) .....	3
3. AStRA .....	3
4. Ei fewnforio i courses.aber.ac.uk .....	4
5. Ychwanegu Cynnwys at Dudalen y Cwrs .....	4
Yr hyn y dylech ei gynnwys yng Nghynnwys y Cwrs .....	5
Cyrsiau i Israddedigion .....	6
Cyrsiau Ôl-raddedig a Addysgir .....	8
Cwestiynau Cyffredin.....	9
Pam nad yw fy nghwrs yn cael ei ddangos ar courses.aber.ac.uk? .....	9
Pam mae cwrs i'w weld ar y gronfa ddata cynlluniau astudio a ninnau wedi'i dynnu'n ôl rhag ymgeiswyr newydd? .....	9
Pam mae manylion y rhaglen yn anghywir neu heb eu dangos? .....	9
Pam nad yw newidiadau sydd wedi'u gwneud yn strwythur y cynllun yn cael eu dangos? .....	9



## Rhagymadrodd

Os oes cwrs newydd wedi'i gyflwyno, mae yna gamau y bydd angen i'r cwrs fynd drwyddyn nhw er mwyn cael ei ddangos ar ein system gyrsiau yn <http://courses.aber.ac.uk/>.

1. Cymeradwyo'r Cynllun
2. UCAS
3. AStRA
4. Ei fewnforio i [courses.aber.ac.uk](http://courses.aber.ac.uk)
5. Ychwanegu cynnwys at dudalen y cwrs

Ar ôl i'r camau hyn gael eu gorffen, bydd y cwrs ar gael i'w weld ac i chwilio amdano yn [courses.aber.ac.uk](http://courses.aber.ac.uk). Dylai'r staff fod yn ymwybodol nad yw'r ffaith bod cynnig ynglŷn â chwrs wedi cael cymeradwyaeth yn golygu'n awtomatig fod y cwrs yn cael ei ddangos ar y we. Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r broses, y ffynonellau gwybodaeth sy'n cael eu defnyddio a sut mae [courses.aber.ac.uk](http://courses.aber.ac.uk) wedi'i gysylltu â ffynonellau data eraill.

### 1. Cymeradwyo'r Cynllun

Mae angen i bob cwrs newydd a phob cwrs sydd wedi'i ailwampio fynd drwy'r broses Cymeradwyo Cynllun. Mae'r manylion llawn ar gael yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-quality-records-office/quality-handbook/development/scheme-approval/>.

Pan fydd y cwrs wedi cael ei gymeradwyo, bydd AQRO yn anfon manylion sylfaenol y cwrs at yr adran Derbyn er mwyn iddyn nhw weithredu. Mae'r manylion yn cynnwys teitl y cwrs (yn Gymraeg a Saesneg), y math o gymhwyster, y math o anrhydedd, y cyfnod, blwyddyn y mewnlifiad cyntaf, codau pwnc JACS, a'r gofynion ynglŷn â mynediad. Ar ben manylion sylfaenol y cwrs, mae AStRA hefyd yn gofyn bod enw/cyfeiriad ebost cydlynnydd y cwrs yn cael eu cynnwys.

### 2. UCAS (cyrsiau i israddedigion yn unig)

Mae'r adran Derbyn yn gosod y cwrs newydd ar UCAS ac yn gofyn am god cwrs UCAS. Pan fydd y cwrs wedi'i gymeradwyo gan UCAS a bod cod y cwrs wedi'i gynhyrchu, mae'r adran Derbyn yn symud i gam 3 (isod).

### 3. AStRA

Mae'r adran Derbyn yn gosod manylion sylfaenol y cwrs yn AStRA.

Er mwyn i'r cwrs gael ei fewnforio i [courses.aber.ac.uk](http://courses.aber.ac.uk), mae'n rhaid i'r faner 'chwilio'r we' gael ei marcio ag Y ar gyfer y flwyddyn berthnasol y bydd y cwrs yn dod ar gael. Mae hyn yn dangos bos y cwrs yn barod i gael ei farchnata.

Er mwyn i strwythur y rhaglen gael ei ddangos yn y gronfa ddata cynlluniau astudio, bydd angen i'r adran fwydo manylion y modiwlau craidd a'r modiwlau dewisol etc. i AStRA. Os oes modiwlau newydd yn y rhaglen, bydd angen i'r adran greu'r rhain ar AStRA a'u cyplysu â'r cynllun. **Fel arall ni fydd cynnwys y**

**rhaglen yn cael eu dangos. O dan y gyfraith defnyddwyr, mae'n hanfodol bod gwybodaeth fanwl-gywir yn cael ei darparu a'i chynnal fel na fydd ymgeiswyr yn cael eu camarwain ynglŷn â'r cwrs.**

Y bwriad yw bod ymgeiswyr yn glanio ar y tudalennau chwilio cyrsiau sy'n dangos strwythur y cwrs ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Bydd y gronfa ddata cynlluniau astudio'n dangos y strwythur cyfredol a strwythur y flwyddyn nesaf a bydd yn cynnwys cyrsiau nad ydyn nhw ar gael i ddechrau arnyn nhw eto am y bydd ar y myfyrwyr presennol angen gweld yr wybodaeth.

#### 4. Ei fewnforio i [courses.aber.ac.uk](https://courses.aber.ac.uk)

Ceir trefniant mewnforio cyson yn system [courses.aber.ac.uk](https://courses.aber.ac.uk) sy'n codi unrhyw gwrs o AStRA sydd â'r faner 'chwilio'r we' wedi'i marcio ag Y ar gyfer y flwyddyn gyfredol sy'n cael ei marchnata.

Rydym yn marchnata '*eleni*' hyd at ddiwedd y cyfnod Clirio pryd y byddwn yn newid drosodd i'r '*flwyddyn nesaf*'. Os nad yw'ch cwrs chi i fod ar gael tan y '*flwyddyn nesaf*' ni fydd yn cael ei fewnforio i [courses.aber.ac.uk](https://courses.aber.ac.uk) heb ein bod ni wedi newid drosodd.

Ni fydd cyrsiau newydd yn cael eu dangos yn [courses.aber.ac.uk](https://courses.aber.ac.uk) nes bod y cam nesaf wedi'i gwblhau a bod y cynnwys wedi'i ychwanegu. Mae'r trefniant mewnforio'n codi'r wybodaeth sylfaenol am y cwrs, ond mae angen testun marchnata i'w droi'n fyw.

#### 5. Ychwanegu Cynnwys at Dudalen y Cwrs

I orffen y broses, bydd angen ychwanegu testun yn system [courses.aber.ac.uk](https://courses.aber.ac.uk). Bydd angen ichi ddarparu'r testun a ganlyn i'r Rheolwr Cynnwys Ar-lein, Joseph Smith:

- Cyrsiau i Israddedigion
  - Crynodeb\*
  - Trosolwg
  - Cyflogadwyedd
  - Addysgu, Dysgu ac Aseu
  - Barn y Myfyrwyr
- Cyrsiau i Ôl-raddedigion
  - Crynodeb\*
  - Ffeithiau Allweddol
  - Trosolwg
  - Cyflogadwyedd
  - Sut i Wneud Cais
  - Barn y Myfyrwyr

\*Yr isafswm sy'n ofynnol er mwyn i'r cwrs gael ei ddangos ar [courses.aber.ac.uk](https://courses.aber.ac.uk).

Rhaid ichi anfon y testun at [Joseph Smith](https://courses.aber.ac.uk) y Rheolwr Cynnwys Ar-lein, er mwyn iddo wirio ei fod yn addas i'w ddefnyddio ar [courses.aber.ac.uk](https://courses.aber.ac.uk). Os yw'r cynnwys yn briodol, bydd Joseph yn ei uwchlwytho i [courses.aber.ac.uk](https://courses.aber.ac.uk) / [UCAS.com](https://ucas.com)

### Yr hyn y dylech ei gynnwys yng Nghynnwys y Cwrs

Mae gwybodaeth am strwythur y cynllun (modiwlau yn y cynllun, craidd a dewisol, cyrsiau dewisol etc.) yn cael ei osod ar AStRA gan yr adrannau a'i godi gan [courses.aber.ac.uk](https://courses.aber.ac.uk). Gall y darllenwyr weld gwybodaeth am y modiwlau drwy glicio ar god pob modiwl.

Mae manylion y modiwlau hefyd yn cael eu bwydo i AStRA gan yr adrannau.

## Cyrsiau i Israddedigion

### *Crynodeb (SEO)*

*Dim mwy na 100 o eiriau*

- Dylai'r paragraff hwn fod yn fachog a deniadol ac mor glir ag y bo modd.
- Byrdwn y cwrs
- Mae angen ichi roi blas i'r darlennydd i demtio'r darpar fyfyrwr i ddarllen gweddill y proffil.
- Dylech gynnwys nodweddion unigryw'r cwrs, a sut mae'n berthnasol i fyfyrwyr yr 21<sup>ain</sup> ganrif

### *Trosolwg*

Bydd y bloc hwn yn cynnwys dim mwy na 10 pwynt bwled yn rhoi rhagor o fanylion am y cwrs. Dylech gynnwys:

- nodweddion y cwrs
- USPs yr adran
- Pam Aberystwyth?
- Cyfleoedd (astudio dros y môr, lleoliadau gwaith, gwaith maes etc.)

*Osgowch roi gwybodaeth benodol am ddyddiadau os oes modd.*

### *Cyflogadwyedd*

Defnyddiwch yr is-benawdau a ganlyn

- **Rhagolygon Gyrfa:** Rhestr o bwytiau bwled am y mathau o yrfaedd y gallai myfyrwyr ddechrau arnynt ar sail y radd hon (dim mwy na saith enghraifft).
- **Sgiliau trosglwyddadwy:** Rhestr o bwytiau bwled am y sgiliau a gaiff y myfyrwyr drwy astudio'r radd hon a sut mae'r rhain yn berthnasol yn y gweithle.

### *Addysgu a Dysgu*

Mae angen i'r adran hon fod mor glir â phosibl i'r darlennydd.

Defnyddiwch yr is-benawdau a ganlyn:

1. Beth fydda i'n ei ddysgu?
2. Sut ca i fy addysgu?

Atebwch yr is-benawdau fel hyn:

Beth fydda i'n ei ddysgu?

Yn y flwyddyn gyntaf fe allech chi:

- ystyried llynyddiaeth yr Almaen yn yr 20<sup>fed</sup> ganrif
- dadlennu iaith, hunaniaeth a diwylliant ar draws cenhedloedd Ewrop

***gan barhau fel hyn ar gyfer yr ail flwyddyn astudio, y drydedd, y bedwaredd/y bumed.***

Sut ca i fy addysgu?

Mewn rhestr o bwytiau bwled, amlinellwch y dulliau addysgu ac asesu.

### *Barn y Myfyrwyr*

Rhowch unrhyw dystebau gan fyfyrwyr sydd gennych ynglŷn â'r cwrs. Os nad oes rhai, peidiwch â phoeni gan fod modd cyhoeddi'r cwrs heb dystebau.

Bydd y cynnwys sy'n cael ei ddefnyddio ar [courses.aber.ac.uk](http://courses.aber.ac.uk) yn cael ei grynhoi'n ddogfen o 4,000 o gymeriadau i'w defnyddio ar [ucas.com](http://ucas.com). ar ôl i honno gael ei chreu, bydd y Rheolwr Cynnwys Ar-lein yn anfon neges ebost at gydlynnydd y cwrs i gael cymeradwyaeth swyddogol cyn iddo fynd yn fyw ar [ucas.com](http://ucas.com).

## Cyrsiau Ôl-raddedig a Addysgir

### *Crynodeb*

*Dim mwy na 120 o eiriau.*

Gofalwch fod hwn mor fachog, deniadol a chlr ag y bo modd. Dylai roi blas ar bethau a denu'r darpar fyfyrwyr i ddarllen gweddill y proffil. Cynhwyswch unrhyw bwyntiau gwerthu unigryw sy'n gwneud eich cwrs neu'ch adran yn arbennig. Osgowch roi gwybodaeth benodol am ddyddiadau os oes modd.

### *Rhagor o wybodaeth*

Dylech gynnwys y penawdau a ganlyn:

- Parhad (pa mor hir yw'r cwrs, oes mwy nag un llwybr ar gael?)
- Asesu (crynodeb o'r dulliau asesu)
- Gofynion Mynediad (gan gynnwys dolen i gysylltu â'r tudalen cymharu)
- Gofynion Iaith Saesneg (gan gynnwys dolen i gysylltu â'r tudalen gofynion iaith Saesneg)
- Ffioedd y Cwrs (heb fod yn benodol - gan gysylltu â'r tudalen ffioedd)
- Cyllid (heb fod yn benodol – gan gysylltu â thudalennau'r gyfrifiannell cyllid)
- Rhagor o wybodaeth (os oes ei hangen, e.e. dolen i gysylltu â chanllaw'r ymgeiswyr)

### *Trosolwg*

Rhowch ragor o fanylion y cwrs. Beth yw byrdwn y cwrs? Pam astudio'r cwrs hwn yn Aberystwyth? Yma gallwch gynnwys rhagor o fanylion ynglŷn â pham y dylai myfyriwr ystyried astudio yn eich Adran neu'ch Athrofa chi yn Aberystwyth.

### *Cyflogadwyedd*

Efallai yr hoffech ddefnyddio'r is-benawdau a ganlyn

- **Bydd y radd hon yn addas i chi:** manylwch ar y rhesymau y gallai myfyrwyr ddewis y cwrs.
- **Cyflogadwyedd:** manylwch ar sut mae'r cwrs yn ceisio gwella cyflogadwyedd y myfyrwyr
- **Sgiliau a Chymwyseddau Allweddol:** Rhestrwch y sgiliau y bydd y myfyrwyr yn eu codi drwy astudio'r cwrs, gan gynnwys sgiliau astudio, hunan-gymhelliant a disgyblaeth, a sgiliau trosglwyddadwy.

### *Sut i Wneud Cais*

Cynhwyswch y gosodiad safonol ar sut i wneud cais: "Caiff ymgeiswyr ôl-raddedig gyflwyno'u cais ar-lein neu all-lein. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein tudalen Gwneud Cais", gyda dolen i gysylltu â'r tudalen Gwneud Cais.

Wedyn gallwch ychwanegu manylion penodol ynglŷn â rhagor o wybodaeth, e.e. manylion cysylltu cydlynedd y cwrs.

### *Barn y Myfyrwyr*

Mae gennych yr opsiwn o gynnwys dyfyniadau gan fyfyrwyr sydd wedi cwblhau'r cwrs.



## Cwestiynau Cyffredin

### Pam nad yw fy nghwrs yn cael ei ddangos ar [courses.aber.ac.uk](https://courses.aber.ac.uk)?

Ceir nifer o resymau posibl. Gwiriwch fod eich cwrs wedi cwblhau pob un o'r camau uchod. Ydy'ch cwrs wedi cael ei gymeradwyo'n ffurfiol? Os dim ond yn ddiweddar y cafodd ei gymeradwyo'n ffurfiol, holwch y [Rheolwr Cynnwys Ar-lein](#) ynglŷn â'r cynnydd diweddaraf. Os yw'ch cwrs wedi'i ychwanegu at AStRA ond nad yw i'w weld eto ar [courses.aber.ac.uk](https://courses.aber.ac.uk), ydy baner chwilio'r we wedi'i marcio'n gywir? Holwch y [Rheolwr Cynnwys Ar-lein](#) os ydych yn credu mai dyna'r broblem. Os yw popeth yn nghamau 1-4 wedi'i gwblhau ond nad yw'r cwrs yn cael ei ddangos, y rheswm am hyn yw nad oes yna gynnwys ynglŷn â'r cwrs. Ydych chi wedi anfon y testun at y [Rheolwr Cynnwys Ar-lein](#)?

### Pam mae cwrs i'w weld ar y gronfa ddata cynlluniau astudio a ninnau wedi'i dynnu'n ôl rhag ymgeiswyr newydd?

Bydd y gronfa ddata cynlluniau astudio'n dangos manylion unrhyw gwrs sy'n rhedeg ar hyn o bryd, er mwyn i fyfyrwyr y cyrsiau hyn weld gwybodaeth am y cynllun. Mae baneri'n cael eu gosod ar AStRA i atal cyrsiau rhag ymddangos ar [courses.aber.ac.uk](https://courses.aber.ac.uk). Mae'r gronfa ddata cynlluniau'n agored i bawb, ond mae ymgeiswyr yn cael eu cyfeirio at [courses.aber.ac.uk](https://courses.aber.ac.uk).

### Pam mae manylion y rhaglen yn anghywir neu heb eu dangos?

Rhaid i'r adrannau fewnbynnu a chynnal manylion modiwlau a strwythurau'r cynlluniau er mwyn dangos modiwlau craidd a dewisol etc. Nid y gwasanaethau canolog sy'n gwneud hyn. Yr adrannau sy'n gorfod sicrhau bod yr wybodaeth hon yn gywir ac yn gyfoes.

### Pam nad yw newidiadau sydd wedi'u gwneud yn strwythur y cynllun yn cael eu dangos?

Cofiwch fod yna flwyddyn gyfredol a blwyddyn ddyfodol a bod y modiwlau'n treiglo ymlaen o'r naill flwyddyn i'r llall, a bod rhaid i newidiadau gael eu gwneud yn y flwyddyn gywir. Weithiau mae newidiadau'n cael eu gosod yn y flwyddyn anghywir neu'n cael eu gwneud cyn i'r modiwlau dreiglo ymlaen ac felly fyddan nhw ddim i'w gweld lle y byddech yn disgwyl. Dylai'r adrannau wirio manylion cynlluniau'n rheolaidd a bod yn ymwybodol bod newidiadau mewn modiwlau'n effeithio ar strwythurau cynlluniau.